17/07/2003

# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 15 Gorffennaf 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Etholaeth Dwyrain Abertawe

**C11 Val Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghymunedau etholaeth Dwyrain Abertawe er 1999? (OAQ26949)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Er 1999, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cymorth ar gyfer nifer o raglenni cymunedol, y mae pob un ohonynt o fudd i bobl ac ardal Dwyrain Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dros £32 miliwn ar gyfer adfywio cymunedol ac economaidd drwy raglenni megis Cymunedau yn Gyntaf, Pobl mewn Cymunedau, cymunedau cynaliadwy ac Amcan 1;
- £4.2 miliwn o gefnogaeth i wella tai o safon isel yn Hafod, sef yr ardal adnewyddu yn ward Glandŵr; a
- dros £3 miliwn o arian gan y Swyddfa Gartref a'r Cynulliad i bartneriaeth diogelwch yn y gymuned Abertawe.

### Grantiau Cymorth Rhanbarthol Dewisol

**C12 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae grantiau cymorth rhanbarthol dewisol wedi cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghaerffili a de ddwyrain Cymru? (OAQ26951)

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-03, cynigiwyd 16 grant cymorth rhanbarthol dewisol, gwerth £2.3 miliwn, i fentrau bach a chanolig eu maint yn etholaeth Caerffili. Dylai'r grantiau hyn ddenu buddsoddiad o tua £6.0 miliwn, gan greu 242 swydd newydd a diogelu pedair swydd. Y ffigurau cymharol ar gyfer Dwyrain De Cymru yw 60 cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol, gwerth £20.5 miliwn, sydd yn denu tua £65 miliwn o fuddsoddiad, a rhagwelir y bydd hynny'n creu 1,669 swydd newydd ac yn diogelu 72 swydd.

### Mentrau Cyllid Preifat

**C13 Leanne Wood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch swyddogaeth mentrau cyllid preifat yng Nghymru? (OAQ26947)

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais yn fy ateb i'ch cwestiwn ar 24 Mehefin, mae gennym farn bragmatig ar fentrau cyllid preifat ac yr ydym yn fodlon eu defnyddio lle maent yn cynnig Gwerth Gorau a lle maent o fudd i'r pwrs cyhoeddus.

### Nofio am ddim i Blant Ysgol

**C14 Carl Sargeant:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu hyrwyddo'r cynllun nofio am ddim i blant ysgol yn ystod gwyliau'r haf? (OAQ26961)

**Y Prif Weinidog:** Bydd lansiad cenedlaethol mawr o’r cynllun peilot nofio am ddim dros yr haf ar 17 a 18 Gorffennaf yn y Gogledd a’r De. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn hyrwyddo’r cynllun yn helaeth ar lefel leol.

**Cyfleusterau Hamdden ar gyfer Pobl Anabl**

**C15 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sicrhau y gall pobl anabl ddefnyddio cyfleusterau hamdden? (OAQ26935)

**Y Prif Weinidog:** Awdurdodau lleol a’r sector preifat yw prif ddarparwyr gwasanaethau hamdden. Mae gan y ddau sector hynny gyfrifoldebau, o dan Rhan III Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, i wneud newidiadau rhesymol i ddiwallu anghenion pobl anabl wrth ddarparu cyfleusterau hamdden.